# YR ATODLENNI

## ATODLEN 3

Cyfrifo incwm

## RHAN 6

Dehongli

**Dehongli**

**23.**—(1) Yn yr Atodlen hon, ystyr unrhyw gyfeiriad at bartner person ("A") yw—

(a) priod neu bartner sifil A; neu

(b) person sy'n byw fel arfer gydag A fel pe bai'r person yn briod neu'n bartner sifil A.

(2) Yn yr Atodlen hon—

ystyr "BF" ("*PY*") yw'r flwyddyn ariannol yn union cyn BG;

ystyr "BF-1" ("*PY-1*") yw'r flwyddyn ariannol yn union cyn BF;

ystyr "BG" *(*"*CY*") yw'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau yn union cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd gyfredol;

ystyr "blwyddyn academaidd gyfredol" ("*current academic year*") yw blwyddyn academaidd y cwrs presennol y mae'r myfyriwr cymwys yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi;

ystyr "blwyddyn ariannol" ("*financial year*") yw'r cyfnod o ddeuddeng mis y cyfrifiennir incwm person mewn cysylltiad ag ef at ddibenion y ddeddfwriaeth treth incwm sy'n gymwys iddo;

ystyr "blwyddyn ariannol gymwys" ("*applicable financial year*") yw'r flwyddyn ariannol y penderfynir arni yn unol â pharagraff 16 neu 22;

ystyr "corff cyhoeddus" ("*public body*") yw awdurdod neu asiantaeth i'r wladwriaeth, boed yn genedlaethol, yn rhanbarthol neu'n lleol;

ystyr "gorchymyn trefniadau pensiwn" ("*pension arrangements order*") yw gorchymyn y mae person yn talu odano fudd-daliadau o dan drefniant pensiwn i berson arall o dan—

(a) adran 23 o Ddeddf Achosion Priodasol 1973(**1**) sy'n cynnwys darpariaeth a wneir yn rhinwedd adran 25B(4) (a chan gynnwys gorchymyn o'r fath fel y gall gael effaith yn rhinwedd adran 25E(3) o'r Ddeddf honno)(**2**), neu

(b) Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004(**3**) sy'n cynnwys darpariaeth a wneir yn rhinwedd Rhan 6 o'r Atodlen honno (a chan gynnwys gorchymyn o'r fath fel y gall gael effaith yn rhinwedd Rhan 7 o'r Atodlen honno).

(**1**) 1973 p. 18, diwygiwyd adran 23 gan Ddeddf Gweinyddu Cyfiawnder 1982 (p. 53), adran 16.
(**2**) Mewnosodwyd adran 25B gan Ddeddf Pensiynau 1995 (p. 26), adran 166(1) ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Diwygio Lles a Phensiynau 1999 (p. 30), Atodlen 4. Mewnosodwyd adran 25E gan Ddeddf Pensiynau 2004 (p. 35), adran 319(1), Atodlen 12, paragraff 3 ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Pensiynau 2008 (p. 30), Atodlen 6, paragraffau 1 a 6 ac Atodlen 11, Rhan 4.
(**3**) 2004 p. 33; addaswyd paragraff 25 o Atodlen 5 gan O.S. 2006/1934 a diwygiwyd paragraff 30 o Atodlen 5 gan Ddeddf Pensiynau 2008 (p. 30), Atodlenni 6 ac 11.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 3 para. 23 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 04/01/2024.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.